Ymddiriedolaeth Natur **Gogledd Cymru**
**North Wales** Wildlife Trust

**PECYN CYMORTH GARDDWYR**

# BETH ALL GARDDWYR EI WNEUD I WARCHOD BYD NATUR


NABOD EICH PLANHIGION | ATAL Y LLEDAENIAD | COMPOSTIO Â GOFAL | PLANT ALERT | DARGANFOD MWY

MYND AT WRAIDD Y MATER

## Tri cham hawdd

Mae gan yr ymgyrch **Mynd at Wraidd y Mater** dri cham hawdd i helpu garddwyr i atal rhywogaethau ymledol rhag dianc o erddi a chydio yn y gwyllt.


- nabod eich planhigion
- atal y lledaeniad
- compostio â gofal



Cronfa Treftadaeth
Heritage Fund

Mewn Partneriaeth â **Llywodraeth Cymru**
In Partnership with **Welsh Government**

# NABOD EICH PLANHIGION



**Ymchwiliwch i blanhigion cyn i chi eu prynu i wneud yn siŵr eu bod yn addas ar gyfer eich anghenion ac amodau'r safle, yn hawdd cael gwared arnyn nhw, a ddim yn rhywogaethau ymledol.**

**Ystyriwch y cynghorion doeth yma** ar gyfer **garddio bywyd gwyllt.**




**Peidiwch byth â mynd â phlanhigion o'r gwyllt na dod â phlanhigion, hadau neu flodau adref o dramor.** Gallent fod yn rhywogaethau ymledol a gallant achosi niwed i fyd natur a bywyd gwyllt.

**Byddwch yn ofalus pan fyddwch chi'n rhannu planhigion gyda ffrindiau a theulu,** oherwydd fe allech chi basio neu dderbyn planhigion ymledol, plâu, neu glefydau planhigion ar ddamwain.

Oeddech chi'n gwybod ei bod **yn anghyfreithlon rhannu neu werthu rhai planhigion gardd a phwll?**

TOP


# ATAL Y LLEDAENIAD



STOPIO RHAG YMLEDU

Os oes gennych chi rywogaeth ymledol yn eich gardd, tynnwch unrhyw ymledyddion, eginblanhigion, pennau hadau a chodennau. Rhaid i chi gael gwared arnyn nhw yn ofalus i'w hatal rhag lledaenu.

Peidiwch â phlannu na chael gwared ar unrhyw blanhigion gardd yn y gwyllt.



Gosodwch blanhigion sy'n tyfu'n egnïol mewn lleoliad heb fod ar ymyl eich gardd neu eu plannu mewn cynhwysydd rhag iddyn nhw allu 'neidio'r ffens'.

Golchwch offer garddio a'ch esgidiau'n rheolaidd i atal lledaenu darnau planhigion, hadau neu glefydau planhigion o un rhan o'r ardd i'r llall, i'r gwyllt neu i ardd arall.

TOP

# COMPOSTIO Â GOFAL



Mae compostio gartref yn gyfeillgar i'r amgylchedd a bydd y compost o fudd i'ch gardd chi. Gwiriwch yn gyntaf a oes gennych chi unrhyw **blanhigion ymledol nad oes posib eu compostio** a dewch o hyd i **awgrymiadau ar gompostio yma.** Cadwch lygad am aildyfiant yn eich tomen gompost a gwnewch yn siŵr ei fod wedi'i dorri i lawr yn iawn cyn ei ddefnyddio yn eich gardd.

**Gwnewch yn siŵr nad oes unrhyw beth rydych chi'n ei dynnu o'ch gardd, pwll neu acwariwm yn mynd i'r gwyllt,** gallech fod yn torri'r gyfraith os bydd yn gwneud hynny. Gall dympio gwastraff gardd arwain at effeithiau amgylcheddol difrifol nad oes posib eu gwyrdroi ac mae'n anghyfreithlon.

Fel arall, gall y rhan fwyaf o blanhigion gardd fynd i'ch bin gwastraff gardd gan y cyngor. Byddwch yn ymwybodol bod gan rai planhigion ymledol fesurau rheoli ychwanegol ar gyfer cael gwared arnyn nhw.

TOP

# PLANT ALERT

Mae **Plant Alert** yn brosiect gwyddoniaeth y dinesydd ar gyfer garddwyr. Fe allwch chi roi gwybod am blanhigion sy'n dangos 'ymddygiad ymledol' yn eich gardd.

## Pam rhoi gwybod am ymddygiad ymledol?

Oherwydd newid hinsawdd, mae'n debyg y byddwn ni'n dod o hyd i rywogaethau ymledol newydd yn y gwyllt. Drwy ein helpu ni i ddeall 'ymddygiad ymledol' yn well mewn gerddi, fe allwch chi helpu i atal effeithiau'r rhywogaethau ymledol hyn sy'n dod i'r amlwg. Mae atal yn well na gwella!

Mae data sy'n cael eu casglu drwy Plant Alert yn cael eu defnyddio i asesu ymlediad a risgiau effaith rhywogaethau ymledol sy'n dod i'r amlwg. Gall y data hefyd roi cyngor i arddwyr a meithrinfeydd ar ba blanhigion a allai fod yn anodd eu rheoli mewn gerddi.

**Dechreuwch gofnodi:**
**plantalert.org**

TOP